Afasic GeirfA

Nam iaith penodol

Beth yw nam iaith penodol?

Dyma un o dri therm a ddefnyddir yn aml i olygu'r un peth. Y ddau arall yw **oedi cyn datblygu iaith** ac **anhwylder datblygu iaith**. Mae'r rhain yn cyfeirio at wahanol grwpiau o blant, ond mae nam iaith penodol yn cyfeirio at bob plentyn sydd ag abnormaledd o ran eu hamgyffrediad o iaith lafar.

Nam iaith penodol yw'r term a ddefnyddir amlaf. Nid yw'n cynnwys plant nad yw eu hiaith yn datblygu oherwydd anabledd meddyliol neu gorfforol, byddardod, problemau emosiynol neu amddifadedd amgylcheddol. Dim ond ar gyfer plant sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith y caiff ei ddefnyddio.

Mae yna wahanol feysydd o ran dysgu iaith, a gwahanol fathau o nam iaith. Y prif wahaniaeth yw rhwng **amgyffrediad** (deall iaith) a **mynegiant** (defnyddio iaith). Bydd y rhan fwyaf o blant sydd â nam yn well mewn un maes na'r llall er efallai y bydd ganddynt anawsterau yn y ddau. Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn rhannu'r meysydd hyn yn:

- **cyfarpar lleferydd** – y geg, y tafod, y trwyn, anadlu ac ati a sut y cânt eu cydlynu a'u gweithredu gan y cyhyrau. Fel arfer, nodir yn gyflym bod gan blant sydd ag anhawster yn y maes hwn yn unig nam ar y lleferydd a nam iaith.
- **ffonoleg** – y synau sy'n gwneud iaith
- **cystrawen neu ramadeg** – y ffordd y mae geiriau a rhannau o eiriau yn cyfuno mewn ymadroddion a brawddegau.
- **semanteg** – ystyr geiriau, darnau o eiriau ac ymadroddion a brawddegau
- **pragmateg** – sut y byddwn yn defnyddio iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd a sut y byddwn yn cyfleu teimladau.
- **goslef a phwyslais** (mydryddiaeth) – y rhythm a 'cherddoriaeth' y ffordd yr ydym yn siarad.

Gall plant gael anawsterau gyda ffonoleg, cystrawen, semanteg a phragmateg sy'n ymwneud ag amgyffrediad neu fynegiant neu'r ddau : e.e. efallai y bydd gan blentyn broblem seinyddol, problem o ran gramadeg fynegiannol neu broblemau semantig-pragmatig. Efallai y bydd gan y plentyn anawsterau eraill yn ogystal â'r un mwyaf arwyddocaol. Mae angen cryn dipyn o arbenigedd i asesu'r plant hyn. Bydd problem mewn un maes iaith yn effeithio ar y lleill.

Defnyddir y term nam iaith penodol i gyfeirio at blant gwahanol. Mae rhai o'r anawsterau nodweddiadol yn cynnwys y canlynol:

- ymddengys bod y plentyn yn deall yr hyn a ddywedir, ond ni all pobl ddeall yr hyn y mae'r plentyn yn ceisio'i ddweud
- mae'r plentyn yn siarad yn glir ac yn helaeth, ond yn aml yn methu â deall diben y sgwrs, gan wneud sylwadau ac ymateb yn amherthnasol
- mae'r plentyn yn siarad yn glir ac mewn geiriau unigol, ond caiff anawsterau i'w cysylltu â'i gilydd ac i wneud brawddegau, gan hepgor geiriau yn aml
- nid yw'r plentyn yn deall bron unrhyw iaith lafar ac ni fydd yn dweud ond ychydig o eiriau.

Mae yna lawer o ddisgrifiadau posibl eraill. Bydd angen i bob plentyn gael asesiad medrus a rhaglen gymorth wedi'i chynllunio.

Cyfeiriadau

Byers-Brown, B ac Edwards, M (1989), *Developmental Disorders of Language*, Whurr

Bishop, D (1992), The underlying nature of specific language impairment, yn *Journal of Child Psychology and Psychiatry* 33, t.66

Bishop, D a Rosenbloom, L (1987), Childhood language disorders : classification and overview, yn *Language Development and Disorders*, gol. Yule a Rutter, Mackeith Press

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Oedi/anhwylder datblygu iaith (3)
- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)
- Anhwylderau iaith lefel uwch (13)
- Problemau seinyddol (14)
- Anawsterau iaith fynegiannol (15)
- Dyspracsia (18)
- Anawsterau gyda deall neu dderbyn iaith (22)

Sefydliadau eraill a all helpu

I CAN
4 Dyer's Buildings, Holborn, London, EC1N 2QP
Ffôn: 0870 010 40 66

NAPLIC (National Association of Professionals concerned with Language Impaired Children)
14 Heritage Close, Peasedown St John, Bath, BA2 8TJ

Royal College of Speech and Language Therapists
2 White Hart Yard, London SE1 1NX
Ffôn: 020 7378 1200

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.